Sut i gymryd rhan

Clinigwyr

Os hoffech annog eich cleifion i ymuno â'r gofrestr, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad / rhif ffôn a nodir a byddwn yn barod iawn i roi manylion y drefn gofrestru i chi. Byddwn yn darparu taflenni gwybodaeth i gleifion a gofalwyr am y gofrestr achosion, a hefyd ffurflenni caniatâd, i chi eu rhoi i'ch cleifion.

Ymchwilwyr

Os ydych yn ystyried recriwtio achosion o Gofrestr Achosion Ymchwil NEURODEM Cymru rydym yn eich cynghori i gynnwys hyn yn eich protocolau ar gyfer cymeradwyaeth foesegol. Er mwyn adnabod cyfranogwyr posibl o'r gofrestr achosion, cysylltwch â ni i gael ffurflen adnabod claf. Caiff pob cais am wybodaeth am gleifion eu hadolygu gan yr uwch dîm rheoli er mwyn sicrhau bod y drefn gymeradwyo briodol yn cael ei dilyn.

Mae croeso i chi gysylltu â ni



NEURODEM CYMRU

Prifysgol Bangor
Ardudwy
Safle'r Normal
Ffordd Caergybi
Bangor
LL57 2PX

Ffôn: (01248) 382598 / 382226
E-bost: neurodem@bangor.ac.uk
Gwefan: www.neurodemcymru.org

Cofrestr Achosion Ymchwil

Taflen Wybodaeth i Glinigwyr ac Ymchwilwyr







www.neurodemcymru.org

Ffôn: (01248) 382598 / 382226

Croeso i NEURODEM Cymru

NEURODEM Cymru yw un o naw rhwydwaith Ymchwil a Datblygu Thematig ar gyfer gofal iechyd a chymdeithasol yng Nghymru. Ei nod yw annog a hwyluso profion clinigol ac astudiaethau ymchwil ar gyfer cleifion gyda phroblemau cofio, dementia o bob math a chyflwr, neu gyflyrau eraill fel afiechyd Parkinson. Mae NEURODEM Cymru yn rhan allweddol o fframwaith ymchwil a datblygu newydd a gyllidir gan Lywodraeth y Cynulliad drwy Gydweithredu Ymchwil Glinigol Cymru (CRC Cymru).

Cofrestr Achosion Cleifion a Gofalwyr

Er mwyn datblygu triniaethau newydd mae angen rhoi gwybodaeth gyson i gleifion, eu gofalwyr a'u perthnasau a rhoi cyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn ymchwil a phrofion clinigol.

Yn aml mae'n anodd i glinigwyr ac ymchwilwyr adnabod cleifion addas i gymryd rhan mewn profion clinigol. Oherwydd hyn rydym yn gweithio'n agos â nifer o glinigau ac yn gwahodd cleifion gyda dementia neu afiechydon niwroddirywiol eraill i ymuno â Chofrestr Achosion Ymchwil NEURODEM Cymru; bydd hon yn adnodd gwerthfawr ar gyfer ymchwil glinigol.

Sut gall Cofrestr Achosion NEURODEM Cymru helpu clinigwyr/ymchwilwyr?

Gall staff sy'n gweithio ar gofrestr achosion NEURODEM eich helpu gyda'r canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth cleifion a hyrwyddo diwylliant ymchwil yn eich clinigau.
- Rhoi cleifion sy'n cydsynio ar y gofrestr achosion..
- Nodi cleifion addas o'r gofrestr ar gyfer eich astudiaethau ymchwil academaidd, astudiaethau ymchwil ar y cyd, neu ar gyfer unrhyw astudiaethau/profion NEURODEM Cymru y dymunwch gymryd rhan ynddynt.
- Hwyluso cydweithio ymchwil newydd rhwng clinigwyr mewn gwahanol feysydd.
- Bydd NEURODEM / CRC Cymru yn gwneud holl waith rheoli'r gofrestr achosion o ddydd i ddydd ar eich rhan.
- Hefyd, byddwn yn anfon ein cylchlythyrau blynyddol at holl glinigwyr, cleifion a gofalwyr perthnasol.

Beth fydd yn digwydd i'm cleifion os byddant yn cydsynio i fod ar y gofrestr?

Pan fyddwn yn cael gwybod bod un o'ch cleifion wedi llofnodi ffurflen i nodi eu bod yn fodlon i rywun gysylltu â hwy ynghylch ymchwil, byddwn yn anfon copi atoch i'w gadw. Byddwn yn cadw copi o ddyddiadau ac enwau profion/ astudiaethau a drafodir â phob claf rhag gorlwytho'r un bobl o hyd gyda cheisiadau.

Gwarchod data, cysondeb a chyfrinachedd.

Cedwir yr holl ddata y byddwn yn eu casglu mewn cronfa ddata a warchodir â chyfrinair gyda mynediad wedi'i gyfyngu i ychydig o staff NEURODEM/ CRC Cymru. Byddwn yn ailgysylltu â chleifion yn ysbeidiol i sicrhau eu bod hwy neu eu perthnasau'n dal i ddymuno bod ar y gofrestr. Cedwir yr holl ddata a gesglir yn hollol gyfrinachol a'u trin yn unol â Deddf Gwarchod Data 1998.

Rhan allweddol o'r gofrestr yw y caiff data eu prosesu mewn ffordd ddienw er mwyn sicrhau na all unrhyw un, heblaw staff awdurdodedig NEURODEM/ CRC Cymru, weld pwy yw'r cleifion. Cyn i'r data gael eu rhoi yn y gronfa ddata rhoddir rhif cofrestru unigryw i'r claf. Ni chaiff unrhyw fanylion a allai ddatgelu pwy yw'r claf eu cadw ar y gronfa ddata.